

Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

Taliadau i Aelodau Etholedig

<https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2024-i-2025-html>

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n gyfrifol am bennu'r lwfansau sy'n daladwy i aelodau etholedig cyngorau tref a chymuned yng Nghymru.

- Rhaid i gynghorau tref a chymuned dalu £156 y flwyddyn (cyfystyr â £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni, a band eang) o ganlyniad i weithio gartref.
- Mae Cyngor Cymuned Penmynydd a Star yn galluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Rhaid cyflwyno derbynebaw.
- Mae taliadau am ysgwyddo cyfrifoldeb uwch-rôl, teithio a chynhaliaeth, lwfans mynychu a cholled ariannol yn ddewisol. **Mae Cyngor Cymuned Penmynydd a Star yn dewis peidio gwneud y taliadau hyn.**

Os ydych am dderbyn y taliad uchod bydd y taliad yn cael ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd taliad pro-rata yn cael ei wneud os yw aelod yn gadael neu newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol.

Os NAD ydych am dderbyn y taliad uchod cwblhewch yr adran isod:-

Gwrthod y taliad

Yr wyf i _____ yn gwrthod y taliad lwfans uchod.

Llofnod _____ Dyddiad _____

Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

Mae Cyngor Cymuned Penmynydd a Star hefyd yn darparu ar gyfer y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol ar gyfer dibynnydd o dan 16 mlwydd oed, neu berson ifanc neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol). Diben hyn yw galluogi Aelodau sydd ag anghenion cymorth personol neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o'r Cyngor. Dim ond ar ôl dangos derbynebaw gan y darparwr gofal y bydd taliadau'n cael eu gwneud. **Ni effeithir eich hawl i dderbyn y cyfraniad hwn wrth arwyddo'r ddogfen hon.**